

Geirfa

addysgeg

Dull ac arfer addysgu.

consortiwm rhanbarthol

Darpariaeth a sefydlwyd gan grŵp o awdurdodau lleol i gyflwyno gwasanaethau gwella ysgol, fel yr amlinellir ym Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol Llywodraeth Cymru.

Cynefin

Y lle rydym yn teimlo ein bod yn perthyn, lle mae'r bobl a'r dirwedd o'n cwmpas yn gyfarwydd, a'r golygfeydd a'r synau'n gysurol o adnabyddadwy. Er y caiff ei gyfieithu fel 'habitat' yn aml, nid lle mewn synnwyr ffisegol neu ddaearyddol yn unig yw cynefin: lle hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol ydyw, sydd wedi siapia ac yn parhau i siapia'r gymuned sy'n byw ynddo. (Cwricwlwm i Gymru, Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig).

Cysyniadau disgyblaethol

Y cysyniadau sy'n tanategu disgyblaeth hanes. Mae'r rhain yn cynnwys cronoleg, newid a pharhad, achos ac effaith, tystiolaeth, dehongliadau, cynrychiolaethau, safbwyntiau, cwestiynau, gwerthuso, arwyddocâd, llunio barn, dilysrwydd a chydgyssylltiad.

Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth

Elusen addysgol wrth-hiliaeth a sefydlwyd ym 1996 yw Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth. Mae'r sefydliad yn defnyddio statws proffil uchel pêl-droed a phêl-droedwyr i helpu i fynd i'r afael â hiliaeth yn y gymdeithas.

datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

Datganiadau sy'n nodi cysyniadau allweddol ym meysydd dysgu a phrofiad y Cwricwlwm i Gymru.

dod i gasgliad

Deall gwybodaeth neu safbwynt nad yw'n eglur yn y testun. Mae disgyblion yn cymryd gwybodaeth o'r testun, yn rhagfynegi, yn ychwanegu eu syniadau eu hunain, yn dod i gasgliadau ac yn llunio barn i greu dehongliad o'r testun.

Gwrth-hiliaeth Gwybodaeth a chysyniadau gwirioneddol Gwybodaeth a dealltwriaeth ddisgyblaethol

Y polisi o herio hiliaeth a hyrwyddo cydraddoldeb hiliol.

Gwybodaeth am y gorffennol. Mae cysyniadau gwirioneddol yn cynnwys amrywiaeth, cymuned, awdurdod, llywodraethu, dinasyddiaeth, cyfiawnder a chydaddoldeb.

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ddisgyblaeth, sef hanes yn yr achos hwn. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau disgyblaethol a gwirioneddol, a sut y gellir eu cynllunio a'u haddysgu.

Hanes Pobl Dduon Cymru 365

Mae Hanes Pobl Dduon Cymru 365 yn dathlu hanes a threftadaeth Affricanaidd ac Affricanaidd-Caribiaidd yng Nghymru drwy gydol y flwyddyn.

Lleiafrif Ethnig

Grŵp o bobl o ddiwylliant neu hil benodol sy'n byw mewn gwlad lle mae'r prif grŵp o ddiwylliant neu hil wahanol.

Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh)

Mae chwe Maes Dysgu a Phrofiad yn y Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys MDaPh y dyniaethau.

Merched y Wawr

Sefydliad gwirfoddol i fenywod yng Nghymru a sefydlwyd ym 1967. Mae dau gant wyth deg o ganghennau ledled Cymru yn trefnu cyfarfodydd a gweithgareddau rheolaidd.

Mis Hanes Pobl Dduon

Mae Mis Hanes Pobl Dduon yn ddathliad sy'n para mis o gyfraniadau pobl o dras Affricanaidd ac Affricanaidd-Caribiaidd i hanes lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Fel arfer, caiff Mis Hanes Pobl Dduon ei gynnal ym mis Hydref.

rhagfarn ddjarwybod Ffafiaeth neu ragfarn nad yw'r unigolyn sydd â'r ffafiaeth neu'r rhagfarn honno yn ymwybodol ohoni. Gallai'r rhagfarn effeithio ar ymddygiad a phenderfyniadau.

uwch fedrau darllen Fel arfer, mae'r rhain yn cynnwys medrau lleoli, ad-drefnu, dod i gasgliad, gwerthuso a gwerthfawrogi.

Numbers - quantities and proportions

bron bob un =	gydag ychydig o eithriadau
y rhan fwyaf =	90% neu fwy
llawer =	70% neu fwy
mwyafrif =	dros 60%
hanner =	50%
tua hanner =	yn agos at 50%
lleiafrif =	o dan 40%
ychydig =	o dan 20%
ychydig iawn =	llai na 10%